OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2004 No. 3220

# Rheoliadau Bwyd a Addaswyd yn Enetig (Cymru) 2004

**Cymhwyso amrywiol ddarpariaethau'r Ddeddf**

**6.**—(1) Mae darpariaethau canlynol y Ddeddf yn gymwys at ddibenion y Rheoliadau hyn a Rheoliad 1829/2003 fel y maent yn gymwys at ddibenion y Ddeddf —

(a) Adran 3 (rhagdybiaeth bod bwyd wedi'i fwriadu ar gyfer ei fwyta gan bobl);

(b) Adran 20 (tramgwyddau oherwydd bai person arall);

(c) Adran 21 (amddiffyniad diwydrwydd dyladwy) fel y mae'n gymwys at ddibenion adrannau 8, 14 neu 15 o'r Ddeddf honno;

(ch) Adran 22 (amddiffyniad cyhoeddi yn ystod busnes);

(d) Adran 30(8) (sy'n ymwned â thystiolaeth ddogfennol)

(dd) Adran 33(1) (rhwystro, etc swyddogion);

(e) Adran 33(2), gyda'r addasiad y bernir bod y cyfeiriad at "any such requirement as is mentioned in subsection (1)(b) above" yn gyfeiriad at unrhyw ofyniad a grybwyllir yn yr is-adran honno fel y'i cymhwysir gan is-baragraff (dd);

(f) Adran 35(1) (cosbi tramgwyddau), i'r graddau y mae'n ymwneud â thramgwyddau o dan adran 33(1) fel y'i cymhwysir gan is-baragraff (dd);

(ff) Adran 35(2) a (3), i'r graddau y mae'n ymwneud â thramgwyddau o dan adran 33(2) fel y'i cymhwysir gan is-baragraff (e);

(g) Adran 36 (tramgwyddau gan gyrff corfforaethol);

(ng) Adran 44 (amddiffyn swyddogion sy'n gweithredu'n ddidwyll); a

(h) Adran 50 (cyflwyno dogfennau).

(2) Mae adran 34 (terfyn amser i erlyniadau) yn gymwys i dramgwyddau o dan reoliad 5 fel y mae'n gymwys i dramgwyddau y gellir eu cosbi o dan adran 35(2) o'r Ddeddf.